





Annwyl Gydweithiwr

04/02/2022



Rwyf am ddechrau drwy dalu teyrnged i'n cydweithiwr Dr Gary Jenkins.

Roedd Dr Gary Jenkins yn feddyg ymroddedig a oedd yn falch o weithio yn y GIG. Mae ein calonnau wedi'u torri gan yr amgylchiadau trawmatig ac erchyll a arweiniodd at ei farwolaeth, ac rydym yn sefyll yn gadarn yn erbyn pob math o homoffobia. Gobeithiaf y bydd y dyfarniad ddoe o leiaf yn dod â rhywfaint o gysur i'w deulu, ei ffrindiau a'i gydweithwyr y cafwyd cyfiawnder.

Rydym am i Dr Gary Jenkins gael ei gofio fel gweithiwr proffesiynol, a oedd bob amser yn ymrwymedig i ddarparu'r gofal gorau i'w gleifion gyda charedigrwydd ac uniondeb.

Mae Stonewall wedi trefnu gwylnos i dalu teyrnged i Dr Gary Jenkins, ar ran cymunedau Caerdydd ddydd Sul 6 Chwefror am 5.30pm ar risiau'r Amgueddfa Genedlaethol yng Nghaerdydd, CF10 3NP.

Sylweddolwn fod yr wythnosau diwethaf, ac mewn gwirionedd y misoedd diwethaf, wedi bod yn gyfnod gofidus iawn tra bod y treial i gael cyfiawnder i Gary wedi cael sylw cyhoeddus. Fel BIP rydym yn sefyll yn gadarn yn erbyn trais, ymddygiad ymosodol a gwahaniaethu, ac os ydych chi'n dioddef trosedd casineb, dylech roi gwybod amdani a cheisio cymorth.

Gary – bydd colled fawr ar dy ôl Gorffwys mewn Hedd

Rwyf wrth fy modd i fod yn ymuno â'r tîm yr wythnos hon fel Prif Weithredwr Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro.

Mae'n ffrainc bod yn rhan o'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol yng Nghymru, yn enwedig yn ystod y cyfnod heriol hwn, a gobeithiaf adeiladu ar etifeddiaeth gref fy rhagflaenwyr, yn enwedig ynghylch ein strategaeth, *Llunio ein Llesiant i'r Dyfodol*.

Wrth i fi ddechrau fy wythnos gyntaf, rwy'n bwriadu cael cyfnod o ddarganfod, lle byddaf yn cyfarfod â chymaint o staff a phartneriaid â phosibl, a chanfod sut mae pethau gyda chi a beth sy'n bwysig i chi. Fy ngwaith i fydd gweithio gyda chydweithwyr, y Bwrdd a'r tîm arwain i'ch galluogi chi i gyd i barhau i wneud y pethau rydych yn eu gwneud yn wych, ond hefyd i'ch cefnogi pan fydd angen i ni wynebu heriau'n uniongyrchol a gweithredu newid.

Rwy'n berson chwilfrydig yn naturiol, a byddaf yn gofyn cwestiynau ac yn dysgu am y system gyfan, o wasanaethau cymunedol i wasanaethau eilaidd i'r gwasanaethau arbenigol unigryw iawn yr ydym yn eu cynnig i bobl Caerdydd a Bro Morgannwg ac i Gymru gyfan.

O ganlyniad i'm profiad fel nyrs a'm gwasanaeth yn y Llynges Frenhinol, gwn pa mor bwysig yw adeiladu timau cadarn a chydnerth. Ystyriaaf fod gennyf rôl hwylusydd - i helpu cyflogeion a phartneriaid i wneud eu gwaith hyd eithaf eu gallu a theimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi am wneud hynny. Mae hyn yn golygu, gyda'n gilydd, ein bod yn rhoi triniaeth a gofal tosturiol o safon uchel i gleifion, yn ogystal â gofalu am ein gilydd.

Dilynwch fi ar fy [nghyfrif Twitter personol](#) a thrwy [sianeli Twitter swyddogol y BIP](#).

Rwyf eisoes wedi cael croeso cynnes ac mae'n bleser gennyf gael y cyfle i weithio ochr yn ochr â chi, ac edrychaf ymlaen at gyfarfod â llawer ohonoch dros yr wythnosau a'r misoedd i ddod fel rhan o #TîmCAF.

Darllenwch fwy am fy ngyrfa hyd yma ar [wefan BIPCAF](#) a [gwylwch fy fideo croeso yma](#).

Hoffwn ddiolch i'r Athro Stuart Walker am ei gefnogaeth a'i gymorth i fi dros y misoedd diwethaf. Rydym wedi cael cyfarfodydd wythnosol yn ystod y cyfnod yn arwain at fy nyddiad cychwyn, ac mae wedi gwneud gwaith rhagorol i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i fi'n rheolaidd, gan fy helpu i lywio fy ffordd drwy system iechyd Cymru a strwythur a strategaeth fawr a chymhleth iawn Bwrdd Iechyd y Brifysgol. Rwyf wedi dod i werthfawrogi ei fewnwelediad a'i barchu'n fawr dros y misoedd diwethaf. Yn anffodus i Dîm CAV, fel y gŵyr llawer ohonoch, rydym yn colli Stuart i ymgymryd â swydd Cyfarwyddwr Meddygol yn Ysbytai Prifysgol Bryste. Bydd Stuart yn golled enfawr i'n tîm, y mae llawer ohonynt ar draws y sefydliad cyfan ac yn enwedig ein cydweithwyr meddygol wedi cael budd o'i arweinyddiaeth, ei brofiad a'i ddoethineb. Mae Stuart wedi gwneud cyfraniad sylweddol i sawl agwedd ar y sefydliad, a thynnwyd sylw at rai ohonynt yn Cyswllt y Prif Weithredwr yr wythnos diwethaf. [Nghyswllt y Prif Weithredwr yr wythnos diwethaf](#). Pob lwc yn dy rôl newydd ym Mryste, Stuart, ac i'r dyfodol.

Canolfannau Brechu Torfol

Mae ein Canolfannau Brechu Torfol yn darparu amgylchedd diogel i bobl allu cadw pellter cymdeithasol, tra'n gadael i fwy o bobl gael eu brechu mor effeithlon a chyflym â phosibl. Er bod rhai pobl wedi methu â mynychu eu hapwyntiadau brechu, mae'r gwasanaeth dyddiol yn ein Canolfannau Brechu Torfol yn rhoi'r cyfle i chi dderbyn eich dos cyntaf, eich ail ddos a'ch dos atgyfnerthu heb yr angen am apwyntiad. Mae'r Canolfannau wedi'u lleoli yn y Bae, y Sblot a Holm View, lle y gallwch alw heibio heb yr angen i drefnu apwyntiad.

Os ydych chi'n 16 oed neu'n hŷn, gallwch chi alw heibio i unrhyw ganolfan, ond dim ond i'r Bae y gall plant rhwng 12-15 oed fynd ac mae'n rhaid bod yng nghwmni oedolyn.

[Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth am amseroedd a lleoliadau ar ein gwefan.](#)

Mis Hanes LHDTC+

Mae'r wythnos hon yn nodi dechrau Mis Hanes LHDTC+. Mae'r ymgyrch flynyddol yn edrych ar hanes y gymuned LHDTC+, ac yn anelu at hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth ar gyfer ei phobl, drwy gynyddu gwelededd a deall y problemau y maent yn eu hwynebu.

Yn anffodus, mae'r gymuned LHDTC+ yn parhau i brofi anghydraddoldebau sylweddol. Dylai pawb fod yn gallu teimlo'n gyfforddus yn eu hunain ac mae'n bwysig ein bod, ar y cyd, yn parhau i gymryd camau cadarnhaol tuag at fynd i'r afael â materion fel homoffobia, biffobia a thrawsffobia i helpu i gyflawni hynny.

Rwy'n ymwybodol o'r gwaith da sy'n digwydd o fewn y sefydliad i ymgorffori diwylliant sy'n gynyddol gynhwysol, sy'n sicr yn rhywbeth yr

wyf am ein gweld yn parhau i adeiladu arno. Elfen bwysig o sicrhau fod hynny'n digwydd yw drwy wella ymwybyddiaeth a dealltwriaeth. Byddwn felly'n annog pawb i fanteisio ar y cyfle i gymryd rhan mewn gweithgareddau sy'n cael eu cynnal yn ystod Mis Hanes LHDTC+, megis y rhai sy'n cael eu rhannu'n fewnol ar gyfer cyflogaion GIG Cymru.



Diweddariad Gweithredol ar COVID-19

Bu cynnydd bach yng nghyfraddau cyffredinol PCR yn ystod yr wythnos diwethaf, sydd wedi'i sbarduno'n bennaf gan achosion ymhlith pobl ifanc o dan 19 oed, er bod nifer yr achosion ymhlith plant o oedran ysgol wedi dechrau gostwng yn ystod y 5 diwrnod diwethaf.

Ceir lefel uwch o bwysau ar draws ein system o hyd, a nifer uchel y gwelyau a ddefnyddir yn ein hysbytai yw'r hyn sy'n sail i'r heriau presennol o hyd. Mae derbyniadau i'r Uned Achosion Brys hefyd yn parhau i gynyddu'n araf, ac mae nifer y cleifion a dderbynnir sydd ag achosion a amheuir o COVID-19 yn parhau i fod yn uchel, ond mae nifer y derbyniadau i'r ysbyty yn dechrau gostwng. Er bod y sefyllfa o ran IP&C wedi sefydlogi, mae'r norofeirws, y fflw a COVID-10 yn dal i gylchredeg yn ein cymunedau ac maent yn cael effaith ar gapasiti.

Gan weithio gyda chydweithwyr a phartneriaid, rydym yn cytuno ar ddull a chymau gweithredu i leddfu pwysau ar y system, sefyllfa'r gweithlu a chyflymu'r broses o ryddhau cleifion.

Hoffwn ddiolch i chi i gyd am eich gwaith caled parhaus, eich ymrwymiad a'ch natur broffesiynol yn ystod cyfnod heriol iawn. Os bydd angen unrhyw gymorth pellach arnoch chi, eich cydweithwyr neu aelodau o'ch tîm, cofiwch fanteisio ar y cymorth sydd ar gael gan y [Gwasanaeth Iechyd a Lles Cyflogaion](#) neu rhwch wybod i'ch rheolwr llinell am unrhyw bryderon.

Gan fod y darlun o safbwynt y fflw yn edrych ychydig yn wahanol eleni i aeafau blaenorol, rydym yn annog cydweithwyr yn gryf i fanteisio ar eu brechiad rhag y fflw er mwyn diogelu cleifion, eu hunain, eu teuluoedd a'r cymunedau a wasanaethwn. Mae cyfradd frechu Tîm CAF yn is nag oedd mewn blynyddoedd blaenorol, sy'n destun pryder, ac oherwydd ei fod yn rhan bwysig o'r strategaeth i gefnogi diogelwch, iechyd a lles pawb, byddwn wir yn annog cydweithwyr sydd heb gael eu brechu i roi ystyriaeth o ddifrif iddo. Nid yw'n rhy hwyr i gael eich brechiad rhag y fflw! Ceir mwy o wybodaeth ar [StaffConnect ynghylch sut y gallwch gael eich brechiad rhag y fflw am ddim neu ganfod pwy yw eich Hyrwyddwr y Fflw](#)

Treial Endosgopi Traws-drwynol yn mynd rhagddo

Mae prosiect yn mynd rhagddo, o dan arweiniad Dr Hasan Haboubi, Gastroenterolegydd Ymgynghorol yng Nghaerdydd a'r Fro, a Dr Dai Samuel, Hepatolegydd Ymgynghorol yng Nghwm Taf Morgannwg, i ddarparu gastrosgopau Olympus mewn clinigau endosgopi traws-drwynol (TNE) safle deuil. Bydd y treial chwe mis yn profi ac yn dangos gwerth TNE mewn cyd-destun iechyd yng Nghymru.

Mae endosgopi yn arbennig o werthfawr i nodi anafiadau cyn-ganseraidd (casgliad o gelloedd o organau'r corff a allai edrych ac ymddangos yr un peth â chelloedd canser) a ffurfiau cynnar o ganser lle y gall y tiwmor gael ei gywiro drwy driniaeth wellhaol.

Caiff y treial ei ariannu gan Fenter Canser Moondance ac mae'n anelu at wella canlyniadau canser yng Nghymru.

Mae TNE yn ddull endosgopi gastroberfeddol uchaf a wneir drwy'r trwyn yn hytrach na drwy'r dull traddodiadol sef y geg, a defnyddir endosgop teneuach. Mae'r arfer hon wedi'i mabwysiadu mewn rhai ysbytai yn Lloegr ac yn eang yn yr Alban, ond ni chaiff ei defnyddio eto yng Nghymru.

Mae Menter Canser Moondance yn canfod, yn ariannu ac yn hybu pobl wych a syniadau dewr i wneud Cymru yn arweinydd y byd o ran cyfraddau goroesi canser.

Dywedodd Megan Mathias, Prif Weithredwr Menter Canser Moondance, "Credaf fod dulliau arloesi fel TNE yn rhoi cyfle sylweddol i drawsnewid dulliau o roi diagnosis cynnar a chanfod canser yng Nghymru. Drwy'r prosiect hwn, mae Hasan Haboubi a Dai Samuel yn

arwain y ffordd wrth ddangos bod lle i TNE wrth ddatblygu ein llwybrau diagnostig i'r dyfodol".

[Ceir rhagor o wybodaeth am y prosiect yma.](#)

Llun o staff BIPCAF o'r chwith i'r dde: Anthony Jardine, Rheolwr Prosiect, Kay Charles, Nyrs Endosgopi, Dr Hasan Haboubi, Gastroenterolegydd Ymgynghorol a Karen Wright, Endosgopydd Nyrsio



Cyflugeion Kickstart yn sicrhau swyddi parhaol

Ers cyflwyno'r cynllun yn 2020, rydym wedi cefnogi dros 140 o bobl ifanc i gael gafael ar gyflogaeth ran-amser am chwe mis, a'u helpu i gael profiad a sgiliau i gael swydd yn y dyfodol.

Yn ddiweddar gwnaethom benodi Louis Milton, cyflogai Kickstart, fel Gweinyddwr Data a Swyddog Cymorth Band 4 yn dilyn lleoliad gyda ni. Ymunodd Louis Milton â Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro ym Mehefin 2021, ac mae wedi darparu cymorth gwerthfawr iawn i'r tîm PCIC, gan helpu i reoli'r rhestr aros ganolog ac apwyntiadau brys ganol bore ar gyfer y tîm deintyddol.

Roedd Louis yn helpu ar sail ran-amser i reoli'r rhestr aros ganolog ac apwyntiadau brys ganol bore.

Gan gyfeirio at ei swydd newydd, dywedodd Louis: "Rwy'n ddiolchgar iawn am y Cynllun Kickstart. Mae'r fenter hon a'r profiad wedi golygu fy mod wedi cael swydd Band 4 amser llawn a pharhaol, yn cyflawni rôl yr wyf yn ei mwynhau, a gyda thîm rwy'n teimlo'n rhan ohono. Rhoddodd y cynllun y cyfle i fi ddysgu a datblygu fy set sgiliau, ac agorodd y drws i gyflogaeth barhaol. Rwy'n edrych ymlaen at ddechrau fy rôl newydd a pharhau i gefnogi'r tîm deintyddol ym mwrdd clinigol PCIC."

Dyweddodd Jane Brown, Pennaeth y Gwasanaeth Deintyddol ac Optometreg ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro: "Roedd agwedd bositif Louis at ei waith a'i frwdfrydedd yn allweddol i'n tîm. Roedd yn awyddus i gefnogi a helpu ein tîm yn ystod ein cyfnodau prysuraf. Gan fod ei gontract yn dod i ben, gwnaethom ofyn am estyniad am gyfnod byr o amser, gan godi ein pryderon ynghylch colli unigolyn mewn swydd a oedd wedi bod yn adnodd gwerthfawr tu hwnt."

Da iawn Louis. [Darllenwch fwy am brofiad Kickstart Louis yma.](#)



Yn y llun: Louis Milton

Rhaglen y Celfyddydau ar gyfer lechyd a Lles ac Elusen lechyd Caerdydd a'r Fro yn comisiynu perfformiad llafar arbennig

Mae Rhaglen y Celfyddydau ar gyfer lechyd a Lles, Elusen lechyd Caerdydd a'r Fro yn falch iawn o lansio Unlocked, cerdd lafar wedi'i chreu gan yr artist Duke Al yn rhan o brosiect Ysbyty Brenhinol Caerdydd: Pobl, Lle, Dyfodol. Wedi'i ariannu gan Gyngor Celfyddydau Cymru, diben y prosiect yw ailfframio perthynas ddyfnach, mwy hygyrch â gwasanaethau'r GIG i bawb.

Mae'r fideo byr, y mae'n werth ei weld, yn crisialu'r dyhead am gysylltiad, cymuned, a chreadigrwydd a deimlir gan nifer o bobl o ganlyniad i'r cyfyngiadau symud a'r golled yn ystod pandemig COVID-19, yn ogystal â'r balchder parhaus, y parch, a'r caredigrwydd a deimlir tuag at staff y GIG.

[Cliciwch yma i gael mwy o wybodaeth.](#)



Elusen lechyd

Edrychwch ar adroddiad blynyddol yr Elusen lechyd ar gyfer 2020-2021. Dyma gyfle i chi weld beth mae'r tîm wedi bod yn ei wneud dros y flwyddyn ddiwethaf, a darllen am sut y mae'r rhoddion wedi cael eu gwario. O enillydd SuperMegaDraw y Loteri i Staff i'r holl ymdrechion codi arian gwych a gafwyd, [cewch wybodaeth amdanyn nhw i gyd yma](#).

Ymwadiad: Cyfrifoldeb y Swyddog Atebol yw'r gwaith o gynnal a chadw gwefan y Bwrdd lechyd a'i chywirdeb. Nid yw'r gwaith a gyflawnir gan archwilwyr yn ystyried y materion hyn, ac yn unol â hynny nid yw archwilwyr yn derbyn unrhyw gyfrifoldeb dros unrhyw newidiadau a allai fod wedi digwydd i'r datganiadau ariannol ers iddynt gael eu cyflwyno ar y wefan yn y lle cyntaf.

Diolch yn fawr am roi croeso cynnes iawn i fi yr wythnos hon. Gallaf weld a theimlo'r balchder yn Nhîm CAF ac rwy'n llawn cyffro i fod yn rhan ohono. I'r rhai ohonoch sydd ag amser i ffwrdd dros y penwythnos, mwynhewch, ac i'r rhai sy'n parhau i ddarparu gofal a thriniaeth i gleifion a dinasyddion, diolch i chi.

Dymuniadau gorau,

Suzanne